

IESU, Y FFORDD A'R GWIRIONEDD A'R BYWYD.

Emyn: 342 'O Iesu, y ffordd.' (Tôn: Crugybar 605).

Darlleniad: Ioan 14:1-11

Neges:

A. CALONNAU CYNHYRFUS.

"Peidiwch a gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch yn of finnau," 1. **Beth oedd achos cynnwrf y disgyblion?** Roedd Iesu wedi dweud wrthynt ei fod yn eu gadael ac yn dychwelyd at Ei Dad. **Beth oedd ateb Iesu i galon gynhyrfus?** i) I gredu yn Nuw ac ynddo Ef.

a) Galwad i drystio yn Nuw, Ei fawredd a'i ddoethineb, Ei frenhiniaeth a'i awdurdod, Ei drugaredd a'i ffyddlondeb. Galwad i ymddiried yn Iesu, yn Ei aberth a'i iawn dros bechod y byd; Ef yw'r ffordd yn ôl at y Tad.

b) Dyma alwad i gredu yng ngeiriau Duw, y Beibl. Roedd y proffwydi wedi dweud y buasai rhaid i'r Meseia ddiodef!

c) I dderbyn bod yn rhaid i Iesu dychwelyd at ei Dad er mwyn i'r Ysbryd Glân ddyfod (16:7). Nid oedd hyn yn golygu nad ydoedd yn eu caru mwyach!

ii) I gredu bod cartref yn y nef. ***"Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau,"*** 2. ***"Tŷ fy Nhad"*** – Dyma gyfeiriad at

y nefoedd. Dyma **gartref Duw**. **'Cartref'**, lle y profir cariad a chroeso, lle ble profir gorffwys a heddw.

"Trigfannau" – lle i drigo (dwell) neu i aros ynddo, lle parhaol! Mae 'na ddigon o le i bobl Dduw yn Ei gartref Ef.

iii) I gredu bod Iesu'n dod yn ôl. ***"Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun,"*** 3. Ni fydd Duw yn danfon am ei blant, ond yn danfon ei Fab Iesu i'w tywys i'w gartref. [Sut wna Iesu **baratoi** lle i'w bobl? Trwy farw yn eu lle ar y groes]. Mae 'na gysur o wybod bod Iesu: a) Yn dod yn ôl rhyw ddydd; b) Bydd yn cymryd Ei bobl ato'i hun ac mi fyddant gydag Ef am byth.

A ydym yn credu yn Nuw ac yn Iesu?

B. CALONNAU CYMYSGLYD.

'Meddai Thomas wrtho, "Arglwydd, ni wyddom i ble'r wyt yn mynd. Sut y gallwn wybod y ffordd?" 5. Mae'n siŵr bod ei feddwl a llawer o'r disgyblion eraill, ar ryw le daearol!

'Dyweddodd Iesu wrtho, "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi," 6.

Ar y cychwyn, nôl yng ngardd Eden, roedd Adda ac Efa yn a) byw mewn cymundeb â Duw; b) yn adnabod Duw a'i wirioneddau; c) yn meddu ar fywyd ysbrydol. Ond gyda'r Cwmp a dyfodiad pechod i'r byd daeth newid – profwyd arwahanrwydd o Dduw, syrthiodd dyn i dwyll ac anwiredd

ac fe brofodd marwolaeth (ysbrydol a chorfforol), am y tro cyntaf. Iesu Grist yw:

i) Y Ffordd: Daeth Iesu i adfer y berthynas, a rwygwyd gan bechod, rhwng Duw a dyn. Ofer yw pob ymdrech ddynol i wneud hyn. Iesu yw'r ffordd yn ôl at y Tad; Iesu yw'r ffordd o euogrwydd a nerth pechod, yn ôl at Dduw.

ii) Y Gwirionedd: Yr hyn wna'r diafol yw dallu a drysu deall dyn. Iesu yw'r gwirionedd sydd yn goleuo meddyliau pobl i wirioneddau Duw sydd yn arwain at fywyd cyflawn.

iii) Y Bywyd: Mae dyn naturiol yn byw i'r byd a'i bethau. Canlyniad y fath fywyd fydd distryw a marwolaeth. Daeth Iesu i ddwyn pobl o farw i fywyd, o fywyd heb obaith i obaith bywiol am fywyd bythol yn Ei gwmni.

A ydym yn adnabod Iesu, y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd?

Gweddi:

O Dduw Dad, a ninnau bellach yn nhymor y cynhaeaf, tymor y diolchgarwch, rydym dal yn cael hi'n anodd derbyn yr hyn sydd wedi digwydd yn ein hardaloedd a'n gwlad a'n byd, o ganlyniad i'r corona feirws. Diolchwn am bob cynhaliaeth ac iechyd rydym wedi derbyn yn y cyfnod anodd yma. Cofiw'n hefyd am y sawl sydd wedi dioddef,

boed wedi colli anwyliaid o ganlyniad i'r feirws, wedi colli gwaith neu'n teimlo'n unig o ganlyniad i'r galw am ynysu a chadw ar wahân o bobl eraill. Helpa ni oll i barhau i drystio ynot fel Duw Mawr a Doeth, sydd yn rheoli pob dim ac sydd yn dymuno'r gorau ar gyfer Ei blant.

Diolchwn am Iesu, y ffordd atat Ti. Mewn byd llawn twyll ac anwiredd, diolch mai Ef yw'r gwirionedd, iddo farw ac atgyfodi er ein mwyn. Diolch mai ef yw'r bywyd, a thrwy gredu ynddo Ef cawn brofi bywyd o hedd a chariad yn dy gwmni am byth. Derby'n ein gweddi, yn Ei enw, Amen.

JESUS, THE WAY, THE TRUTH AND THE LIFE.

Hymn: 906 'What a friend we have in Jesus.'

Reading: John 14:1-11.

Message:

A. TROUBLED HEARTS.

"Let not your hearts be troubled. Believe in God; believe also in me." **Why were the disciples troubled?** Jesus had told them that he was about to leave them and return to his Father, (John 12:24,35). **What was Jesus' answer to troubled hearts?** i) **To believe in God and to believe in him (Jesus).** a) To believe in God's strength and wisdom, His authority and sovereignty, His love and faithfulness. Also, to believe in Jesus, his sacrifice and atonement for the sins of the world. To believe that He was the way back to the Father. b) To believe in God's words, the Bible. The prophets had said that the Messiah had to suffer and die. c) To believe that Jesus had to go, so that the Holy Spirit could come. Yet Jesus would not forget or abandon them.

ii) **A heavenly home:** *"In my Father's house are many rooms,"* 2. The 'Father's house' speaks of a home, God's home. A place where people are loved and feel welcome;

a place where joy and peace are found. 'Many rooms' speaks of 'abiding places', a place to stay permanently.

iii) **Jesus will return:** *"And if I go and prepare a place for you, I will come again and will take you to myself,"* 3. God will not send for his children, but He will send his Son Jesus to bring them to him. Jesus will come again, and God's children will be with Him forever, in God's house.

B. CONFUSED HEARTS.

'Thomas said to him, "Lord, we do not know where you are going. How can we know the way?" 5. Jesus replied, ***"I am the way, and the truth and the life. No one comes to the Father except through me,"*** 6. Only Jesus could say such words. Before the Fall in Eden, Adam and Eve lived in communion with God, knew God and his truth and possessed spiritual life, (life in all its fullness). When sin entered the world, they experienced separation from God, fell into falsehood/error and began to know death. Jesus came to deal with sin and to restore people to God. i) **Jesus is the Way**, to the Father: Jesus has come to restore the broken relationship between man and God. All other efforts to reach the Father ends in failure. Jesus came to draw people from their sin (its guilt and power) and to bring people back to God.

ii) **Jesus is the Truth:** From the Fall to now, the devil has been blinding and deceiving mankind from that which is truth. Jesus is the truth, that enlightens people's minds to their need of God, to be right with Him, and to know of his love and mercy.

iii) **Jesus is the Life:** Natural man lives for the things of the world; spiritually he is dead. Jesus came to bring people from death to life, from a lost eternity to the hope of life everlasting in the Father's house.

Do we know Jesus as the way and the truth and the life?

Prayer:

O Heavenly Father, as we approach harvest time, the season of thanksgiving, we still find it hard to accept that which has occurred in our towns and villages, our nation and world, as a result of the corona virus. Yet, we give you thanks for keeping us safe and well and for sustaining us in these difficult times. We remember all who have suffered during this time, whether it is the loss of a loved one as a result of the virus, the loss of work or the loss of freedom as a result of the isolation that we have to undertake. Help us all to continue to trust in you, and to acknowledge that you are a mighty and wise God who has

authority over all things and desires the best for his children.

We give thanks that Jesus is truly the way to you. In a world full of deceit and lies, we give thanks that Jesus is the truth. That He died for our sins and rose from the dead to give us new life. A life of joy and peace, a life in your presence now and forever. Hear our prayer, Amen.